WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o brosiect Datgloi ein Treftadaeth Sain – **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1556A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel rhan o'r gwaith a berfformiwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus o ran trin ceisiadau, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm wnaeth gyflawni'r gwaith hwn yn cynnwys Nicholas Raynor a Hefin Davies.

# Cynnwys

Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o sut mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gynllunio a chyflwyno'r Prosiect Datgloi ein Treftadaeth Sain. Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bod cyfleoedd i wreiddio'r ffyrdd o weithio ymhellach wrth iddi gyflawni'r prosiect hwn.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliadau 7

Mae'r prosiect yn cefnogi gweledigaeth y Llyfrgell ar mae ganddi dargedau clir ar gyfer cadw casgliadau sain ar gyfer y tymor hir ond nid yw'r Llyfrgell wedi penderfynu eto sut fydd y prosiect yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben 7

Mae atal yn rhan gynhenid o'r prosiect ac mae'r Llyfrgell wedi gosod targedau sy'n canolbwyntio ar atal ond nid yw'r Llyfrgell yn llwyr ddeall hyd a lled casgliadau sain a gedwir gan gyrff eraill ac nid oes ganddi gynllun eto i atal colli sgiliau ar ôl i'r prosiect ddod i ben 8

Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith traws-sefydliadol, integredig da ac mae cyswllt clir rhwng y prosiect ac amcanion llesiant y Llyfrgell ond nid yw'r cyswllt rhwng y prosiect a nodau llesiant cenedlaethol wedi'u hystyried yn benodol 9

Mae tystiolaeth o gydweithio cynnar, da rhwng y Llyfrgell a rhanddeiliaid y prosiect, ond mae lle i gydweithio gwell fyth, a allai arwain at fanteision ehangach 11

Mae'r Llyfrgell yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid wrth gyflwyno'r prosiect ond gallai'r dewis o bartneriaid allanol a'r casgliadau sy'n cael eu digideiddio fod wedi bod yn fwy amrywiol 12

Rhan Dau: Ymateb Llyfrgell Genedlaethol Cymru 14

Atodiadau

Atodiad 1: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam aethom ati i gynnal yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n statudol ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau maen nhw wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant; a chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad Cynulliad 2021.

4 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

5 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Adlewyrchu ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).** Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd maen nhw'n gweithio.

6 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, fe wnaethom ymgysylltu gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys drwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

7 Gan fod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un yn cynnwys ystyried sut roedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

8 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2019 a Mai 2019. Fe wnaethom gynnal gweithdy cychwynnol ym mis Ionawr 2019 gyda staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) oedd yn rhan o'r prosiect Datgloi ein Treftadaeth Sain. Roedd y gweithdy'n edrych ar sut yr oedd pob un o'r pum ffordd wedi cael eu cymhwyso. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennau prosiect allweddol a chynnal cyfweliadau gyda swyddogion a rhanddeiliaid allanol y prosiect.

9 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r prosiect Datgloi Ein Treftadaeth Sain, sy'n gam y mae'r Llyfrgell yn ei gymryd i fodloni ei amcanion llesiant. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Llyfrgell i'n canfyddiadau.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Fe wnaethom archwilio i ba raddau mae'r Llyfrgell yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni'r prosiect Datgloi Ein Treftadaeth Sain (y prosiect).

11 Sefydlwyd y prosiect yn y Llyfrgell ym mis Medi 2018 fel rhan o'r rhaglen **Achub Ein Sain** o dan arweiniad y Llyfrgell Brydeinig. Nod y rhaglen hon, a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri, yw digido a storio sain o bob rhan o'r DU, gan eu gwneud yn ddiogel ac yn hygyrch i'r cyhoedd am flynyddoedd i ddod.

12 Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r bygythiad sy'n wynebu treftadaeth sain y DU, o ganlyniad i ddiraddio cludwyr corfforol (hy y cyfrwng ffisegol o storio sain, fel tâp neu ffilm) a diflaniad offer sy'n gallu chwarae'r cynnwys yn ôl. Bydd y broses o ddiogelu'r seiniau yn cael ei sicrhau drwy ddigideiddio cynnwys bregus, datblygu sgiliau a mwy o fynediad cyhoeddus i'r dreftadaeth sain. Erbyn mis Mehefin 2022, bydd y sector treftadaeth mewn gwell sefyllfa i allu gofalu am archifau clywedol, a bydd amrywiaeth ehangach o bobl yn gallu cyrchu eu treftadaeth sain a'i mwynhau.

13 Mae Datgloi Ein Treftadaeth Sain yn brosiect ledled y DU a fydd yn helpu i achub seiniau'r genedl a'u gwneud yn hygyrch i bawb. Nod y prosiect yw:

- trawsnewid mynediad at, a chynnal treftadaeth sain sydd fwyaf bregus ac mewn perygl yn y DU;
- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gwerth treftadaeth sain y genedl;
- creu canolfannau rhagoriaeth mewn cadwraeth sain ddigidol o amgylch y DU; a
- chynnwys cynulleidfaoedd newydd wrth ymgysylltu â'u treftadaeth sain mewn ffyrdd arloesol.

14 Mae'r Llyfrgell yn un o ddeg partner sefydliadol yn y prosiect, a dyma'r unig hwb yng Nghymru. Fe wnaeth y Llyfrgell Brydeinig gynnwys y partneriaid hyn yn y broses o lunio ei chais i Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri.

15 Fel ei chyfraniad i'r prosiect, dros y tair blynedd nesaf, bydd y Llyfrgell yn digideiddio 4,921 o eitemau sydd mewn perygl o'i chasgliadau ei hun a gan sefydliadau eraill yng Nghymru. Bydd y Llyfrgell hefyd yn cynnal 26 o ddigwyddiadau dysgu, yn cynnwys 42 o wirfoddolwyr ac yn gweithredu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer digideiddio sain.

16 Ers ei sefydlu yn 1907, pwrpas a gweledigaeth y Llyfrgell yw sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'u dogfennu mewn llawer o wahanol fformatau a chyfryngau dros amser, bob amser ar gael am byth ac i bawb. Mae'r prosiect hwn yn adlewyrchu'r pwrpas hwn ac yn cyd-fynd â'i strategaeth gyfredol, fel sydd wedi'i fynegi yn **Cof y Genedl: Llywio Cynllun Strategol y Dyfodol, 2017-2021**. Yn y cynllun hwn, mae'r Llyfrgell yn ymrwymo i gadw a darparu mynediad i'w chasgliadau; gweithio mewn partneriaeth, mewn cyd-destun strategol a chymunedol; cefnogi'r rhaglen wirfoddoli; datblygu sgiliau; cymryd rhan mewn gweithgareddau allgymorth a gweithgareddau addysgol; cynyddu cynnwys digidol a sicrhau cadwraeth ddigidol dros amser.

17 Drwy'r grant a ddarparwyd gan Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri, mae'r Llyfrgell wedi gallu cyflogi pedwar aelod o staff, a fydd yn datblygu eu sgiliau rheoli prosiect, rheoli hawliau, catalogio, digideiddio deunyddiau sain a chymorth technegol.

18 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'fyrdd o weithio' canlynol.

## Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' fel sydd wedi'u diffinio yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion[1]'.

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gallai amcanion llesiant corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i ddiwallu ei amcanion llesiant. |
| **Cynhwysiant**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

19 Fe wnaeth ein harchwiliad ganfod y canlynol: **Mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gynllunio a chyflwyno'r prosiect Datgloi Ein Treftadaeth Sain. Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bod cyfleoedd i wreiddio'r ffyrdd o weithio ymhellach wrth iddi gyflawni'r prosiect hwn.**

[1] Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, 2015

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae'r prosiect yn cefnogi gweledigaeth y Llyfrgell ac mae ganddo dargedau clir ar gyfer cadw casgliadau sain ar gyfer y tymor hir ond nid yw'r Llyfrgell wedi penderfynu eto sut y bydd y prosiect yn parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben

#### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

20 Fe wnaethom edrych am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o anghenion presennol ac anghenion hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros amserlen briodol;
- adnoddau'n cael eu dyrannu i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

21 Roedd ein harchwiliad hefyd wedi'i lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' a nodwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

22 Fe wnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- mae'r prosiect yn cyd-fynd yn gryf â phwrpas a gweledigaeth y Llyfrgell o ran sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'u dogfennu mewn llawer o wahanol fformatau a chyfryngau dros amser, ac y bydd ar gael am byth.
- mae'r prosiect wedi'i ddylunio i gyflawni targedau tymor byr yn y cyfnod ariannu grant o dair blynedd a fydd yn darparu'r fantais o wneud casgliadau sain yn hygyrch yn yr hirdymor.
- mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i waith cadwraeth sain barhau yn yr hirdymor drwy:
  - ddatblygu gallu, sgiliau ac arbenigedd y Llyfrgell o ran cadw sain yn ddigidol;
  - sicrhau offer arbenigol ar gyfer y Llyfrgell er mwyn digideiddio casgliadau; a
  - gwella llif gwaith prosesau cadwraeth y Llyfrgell.

[2] Gweler Atodiad 1

23 Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- mae diwedd cyllid y prosiect yn cyd-fynd â diwedd Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredol cyfredol y Llyfrgell. Nid yw'n glir eto beth yw uchelgais hirdymor y Llyfrgell ar gyfer digideiddio casgliadau sain a p'un a ellir cynnal manteision y prosiect unwaith y daw cyllid y prosiect i ben.

## Mae atal yn rhan gynhenid o'r prosiect ac mae'r Llyfrgell wedi gosod targedau sy'n canolbwyntio ar atal ond nid yw'r Llyfrgell yn llwyr ddeall hyd a lled casgliadau sain a gedwir gan gyrff eraill ac nid oes ganddi gynllun ar waith eto i atal colli sgiliau ar ôl i'r prosiect ddod i ben

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

24 Fe wnaethom edrych am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o natur a math y broblem y gallai'r cam helpu i'w atal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau sydd wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithio mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.

25 Roedd ein harchwiliad hefyd wedi'i lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' a nodwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

26 Fe wnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- Roedd staff Llyfrgell y gwnaethom ymgysylltu â nhw arddangos eu hymrwymiad yn amlwg i'r prosiect ac i gadw casgliadau sain. Maen nhw'n cydnabod manteision y prosiect a'r goblygiadau i ddiwylliant Cymru o beidio â gwneud y gwaith.
- mae risg y bydd casgliadau sain sy'n cael eu cadw ar fformatau ffisegol yn cael eu colli wrth i'r cludwyr ddiraddio dros amser ac nid yw'r offer i'w chwarae yn cael ei gynhyrchu mwyach. Mae'r prosiect yn blaenoriaethu gwaith cadwraeth drwy ganolbwyntio ar gasgliadau bregus, sydd mewn perygl.
- mae'r prosiect yn datblygu ac yn rhannu'r sgiliau a'r seilwaith hanfodol sydd eu hangen i gadw casgliadau sain yn ddigidol a'u hatal rhag cael eu colli.

[3] Gweler Atodiad 1

Mae'r prosiect yn ariannu pedwar aelod o staff penodol ac mae'n datblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol yn y Llyfrgell mewn maes o waith lle mae arbenigedd yn brin. Yn ogystal ag atal colli casgliadau sain a gedwir gan y Llyfrgell, mae'r prosiect yn diogelu casgliadau mewn sefydliadau nad oes ganddynt y gallu i ddigido eu casgliadau sain.

- mae gan y prosiect dargedau clir sy'n gysylltiedig ag atal. Mae targedau'r Llyfrgell ar gyfer y cyfnod sy'n cael ei ariannu o dair blynedd yn cynnwys:
  - digideiddio 4,921 o eitemau sain ffisegol;
  - tua 15,000 o recordiadau i'w cyflwyno i system llyfrgell ddigidol y Llyfrgell Brydeinig; ac
  - o leiaf 500 o recordiadau i'w hychwanegu i British Library Sounds ac ar gael i wrando arnynt ar-lein.
- bydd cynnydd o ran cyflawni'r targedau yn cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd i Fwrdd Prosiect y Llyfrgell Brydeinig a Bwrdd Prosiect Mewnol y Llyfrgell.

27 Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- ar ôl y prosiect, un o'r heriau allweddol i'r Llyfrgell fydd ennill dealltwriaeth ddyfnach o gasgliadau sain a gedwir gan sefydliadau eraill yng Nghymru a, thros amser, chwilio am gyfleoedd i ddigido ac atal eu colled.
- daw cyllid y prosiect i ben ym mis Awst 2021. Os bydd gweithgaredd digido'r Llyfrgell yn cael ei gwtogi wedyn, mae perygl y bydd y Llyfrgell yn colli'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu datblygu gan y prosiect i ddiogelu casgliadau sain, ynghyd â'r seilweithiau technegol sy'n cael eu sefydlu.

## Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith traws-sefydliadol, integredig da ac mae cysylltiad clir rhwng y prosiect ac amcanion lles y Llyfrgell ond nid ystyriwyd y cysylltiad rhwng y prosiect a'r nodau llesiant cenedlaethol yn benodol

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

28 Fe wnaethom edrych am dystiolaeth o'r canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Llyfrgell a'i blaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

29 Roedd ein harchwiliad hefyd wedi'i lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' a nodwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

30 Fe wnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- dywedodd staff y Llyfrgell wrthym fod y prosiect yn cynnwys gwaith traws-sefydliadol, integredig da.
- mae'r prosiect yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Prosiect Mewnol sy'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob rhan o'r Llyfrgell. Mae is-grŵp Gweithgareddau'r Bwrdd Prosiect Mewnol yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thrafod materion fel sut y gall adrannau weithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r prosiect.
- mae gan y Llyfrgell drefniadau rheoli prosiect a llywodraethu clir.
- mae'r prosiect wedi'i rannu'n becynnau gwaith. Mae atebolrwydd am roi pob pecyn ar waith wedi'i nodi'n glir yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect, ac mewn rhai achosion fe'i rhennir ar y cyd. Er enghraifft, mae 'Pecyn Gwaith 4 – Mynediad i'r We' yn cael ei roi ar waith gan TG, Systemau a Safonau, Casgliadau Pobl a phartneriaid allanol.
- gallai staff llyfrgell y buom yn siarad â nhw ddangos sut mae'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Llyfrgell. Sefydlwyd y prosiect ar ôl i Gynllun Gweithredol y Llyfrgell gael ei gynhyrchu ac felly nid oes cyfeiriad penodol ato yn y cynllun hwn, ond mae wyth o 18 o amcanion lles y Llyfrgell yn gysylltiedig â digideiddio casgliadau.

31 Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- dangosodd ein gweithdy fod staff sy'n gweithio ar y prosiect yn gallu egluro sut mae'r prosiect yn cyfrannu at rai o'r nodau llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, wrth fyfyrio ar sut mae'r prosiect yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol 'Cymru Iachach', roedd grŵp y gweithdy yn falch o'r effaith mae'r prosiect yn ei gael ar iechyd meddwl i'r genhedlaeth hŷn a'r rhai â dementia, drwy ddarparu atgof cyffredin a'u galluogi i hel atgofion am y gorffennol. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas rhwng y prosiect a'r nodau llesiant cenedlaethol wedi'u hystyried a'u mynegi mewn dogfennaeth prosiect. Gall dangos y berthynas hon a phwysleisio manteision y prosiect gefnogi cyfleoedd i sicrhau cyllid ychwanegol a pharhau â gwaith y prosiect.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae tystiolaeth o gydweithio da, cynnar rhwng y Llyfrgell a rhanddeiliad y prosiect ond mae cwmpas am gydweithio gwell fyth, a allai arwain at fanteision ehangach

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

32 Fe wnaethom edrych am dystiolaeth bod y Llyfrgell:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu p'un a yw'r cydweithio yn ei helpu neu ei rhanddeiliaid i ddiwallu anghenion llesiant.

33 Roedd ein harchwiliad hefyd wedi'i lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' a nodwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

34 Fe wnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- mae perthynas waith dda ymhlith staff y Llyfrgell sy'n gweithio ar y prosiect. Mae unigolion a thimau wedi ymrwymo i gyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus, ac ni adroddwyd am unrhyw rwystrau diwylliannol neu weithdrefnol sy'n llesteirio cydweithio mewnol.
- mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd onest ac agored, ac mae'n ymddangos bod pob parti'n deall ei rôl a'i gyfraniadau gofynnol.
- mae tystiolaeth o gydweithio da ar y prosiect yn cynnwys:
  - mae timau wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddatblygu a gwella prosesau llif gwaith mewnol y broses digideiddio; ac
  - fe wnaeth partneriaid Hwb y prosiect gyfarfod ym mis Mehefin 2019 i ystyried sut y gall rhaglenni 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' rannu gwybodaeth ac arbenigedd ar brosesau digideiddio gyda phartneriaid allanol y prosiect.
- mae gan dîm prosiect y Llyfrgell berthynas waith dda gyda'r Llyfrgell Brydeinig. Mae mynychwyr y gweithdy yn falch o'r berthynas mae'r prosiect wedi'i datblygu gyda'r Llyfrgell Brydeinig ac yn credu bod y Llyfrgell Brydeinig yn ystyried y Llyfrgell yn gorff cyfoed. Awgrymir hyn gan y Llyfrgell Brydeinig yn gwahodd y Llyfrgell i fod yn bartner Hwb a fydd yn eistedd ar Fwrdd Prosiect y Llyfrgell Brydeinig am 12 mis o fis Ionawr 2020.

[5] Gweler Atodiad 1

35 Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- megis dechrau datblygu mae perthynas y Llyfrgell â phartneriaid allanol y prosiect o hyd, ond mae lle i'r Llyfrgell weithio mewn ffordd fwy cydweithredol gyda'r casgliadau mae'n eu digideiddio ar gyfer ei phartneriaid allanol, er mwyn sicrhau manteision ehangach. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn am gynnwys sy'n bodloni'r meini prawf cyllido a'i ddychwelyd ar ffurf ddigidol yn unig, gallai'r Llyfrgell weithio i ehangu cwmpas ei gwaith gyda phartneriaid allanol, er mwyn mynd ati i gynyddu ymwybyddiaeth o'r deunydd sy'n cael ei ddigideiddio a sicrhau'r mynediad gorau posibl iddo gan y cyhoedd.

## Mae'r Llyfrgell yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid wrth gyflwyno'r prosiect ond gallai'r broses o ddethol partneriaid a chasgliadau i'w digideiddio fod yn fwy amrywiol

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

36 Fe wnaethom edrych am dystiolaeth bod y Llyfrgell:

- wedi nodi pwy mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflwyno'r cam;
- wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol wrth gynllunio a chyflwyno'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynhwysiant i lywio datblygiad a chyflwyniad y cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella ei dull o sicrhau cynhwysiant.

37 Roedd ein harchwiliad hefyd wedi'i lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynhwysiant' a nodwyd ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

38 Fe wnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- mae'r Llyfrgell yn gweithio'n dda gyda'r ystod eang o randdeiliaid sy'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect, fel gwirfoddolwyr, partneriaid cymunedol, ysgolion a Phrifysgol Aberystwyth.
- mae'r Llyfrgell yn defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiect yn weithredol. Mae'r cytundeb gyda'r Llyfrgell Brydeinig yn gosod targedau i'r Llyfrgell o gynnwys 42 o wirfoddolwyr dros y cyfnod o dair blynedd, am gyfanswm o 1,115 diwrnod. Mae cynnydd da yn cael ei wneud i gyflawni'r targedau hyn.

[6] Gweler Atodiad 1

Mae Cynllun Gwirfoddolwyr yn nodi targedau'r gwirfoddolwyr, natur y tasgau i'w cyflawni gan wirfoddolwyr a'r trefniadau ar gyfer eu rheoli.

- mae'r contract rhwng y Llyfrgell Brydeinig a'r Llyfrgell yn nodi'n glir sut y bydd y Llyfrgell yn cyflwyno gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy dri maes gwaith: allgymorth cymunedol, ysgolion ac addysg uwch.
  – allgymorth cymunedol – bydd y Llyfrgell yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol a grwpiau diddordeb arbennig yn rhanbarthau Cymru i greu adnoddau ar-lein digidol ar wahanol themâu wedi'u hysbrydoli gan gasgliadau sain. Bydd hyn yn golygu gweithio gydag awduron, artistiaid a cherddorion i ddehongli deunydd.
  – ysgolion - trwy adran Gwasanaethau Addysg y Llyfrgell, bydd y prosiect yn cyflwyno pum prosiect mewn ysgolion ac yn datblygu adnodd i athrawon, a fydd yn rhoi arweiniad penodol i gyd-fynd â Chwricwlwm Cymru.
  – addysg uwch – mae myfyrwyr ar gwrs MA Gweinyddu Archifau Prifysgol Aberystwyth yn ymwneud â digideiddio casgliadau'r prosiect. Mae'r cyfranogiad hwn yn helpu i ddatblygu cenhedlaeth o archifyddion fydd â sgiliau digideiddio ar gyfer y dyfodol.
- mae targedau'r contract ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid o dan bob ffrwd gwaith yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Llyfrgell Brydeinig.

39 Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- arweiniwyd yr archwiliad cyn y prosiect, oedd yn sail i'r broses o ddewis partneriaid allanol, gan y Llyfrgell Brydeinig. Roedd diffyg ymwneud y Llyfrgell â'r archwiliad hwn, a hyd byr yr archwiliad, yn cyfyngu ar gyfleoedd i archwilio cynnwys ystod fwy amrywiol o bartneriaid allanol ac amrywiaeth ehangach o gasgliadau yn y prosiect.

## Rhan Dau: Ymateb Llyfrgell Genedlaethol Cymru

40 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, cyflwynwyd ein canfyddiadau i'r Llyfrgell mewn gweithdy ym mis Medi 2019. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Llyfrgell ystyried ei hymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a mwy o fyfyrio ar ein canfyddiadau mae'r Llyfrgell wedi datblygu'r camau canlynol.

Arddangosyn 2: Ymateb Llyfrgell Genedlaethol Cymru

| Ffyrdd o weithio | Meysydd i'w gwella | Camau'r Llyfrgell | Manylion |
|---|---|---|---|
| Hirdymor | Cynaliadwyedd yn dilyn diwedd y prosiect yn 2021. | Eiriolwr am bwysigrwydd y prosiect.<br>Gweithredu'n gynaliadwy drwy uwchgylchu ac ailgylchu offer i atgyweirio peiriannau a ddefnyddir i ddigideiddio casgliadau.<br>Ceisio cyllid pellach drwy grantiau a phartneriaethau, gan gynnwys Pilgrim Trust, Esmee Fairbairn Foundation, ac ati.<br>Chwilio am gyfleoedd i gynhyrchu incwm. | Bydd yr ymchwil yn dechrau ym mis Hydref/Tachwedd 2019 ac yn parhau tan ddiwedd y prosiect.<br>Bydd y Llyfrgell Brydeinig yn arwain pwyllgor i edrych ar gynaliadwyedd pob partner hwb – bydd hyn yn cynnwys aelod o staff y Llyfrgell.<br>Bydd digideiddio sain yn cael ei gynnwys yng nghynllun strategol nesaf y Llyfrgell. |
| Atal | Ymestyn dealltwriaeth o leoliad a chyflwr casgliadau eraill bregus ledled Cymru. | Cysylltu â sefydliadau ledled Cymru i gael darlun o'r casgliadau bregus a blaenoriaethu. | Llywio dealltwriaeth y Llyfrgell o gasgliadau wrth ymgysylltu â sefydliadau allanol a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect.<br>Cynnal adolygiad o gasgliadau sy'n cael eu cadw gan sefydliadau ar ôl pum mlynedd. |

| Ffyrdd o weithio | Meysydd i'w gwella | Camau'r Llyfrgell | Manylion |
|---|---|---|---|
| Atal | Cynaliadwyedd y sgiliau, y wybodaeth a'r seilwaith technegol a ddatblygwyd gan y prosiect. | Rhaglen barhaus o rannu sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth i sgiliau prif ffrwd. | Rheolwyr prosiect hwb a Llyfrgell Prydain i gyfarfod ym mis Hydref 2019 i greu cynllun hyfforddi ar gyfer staff, sefydliadau eraill a'r cyhoedd.<br>Gweithio gyda Phrifysgol Cymru Aberystwyth i gynnwys digideiddio sain yn eu cwrs MA Y Cyfryngau a chynnig hyfforddiant a chyngor i fyfyrwyr - 2020. |
| Integreiddio | Nid yw'r berthynas rhwng y prosiect a'r nodau llesiant cenedlaethol wedi'u hystyried a'u mynegi mewn dogfennaeth prosiect. | Bydd gwerth y casgliad sain yn cael ei amlygu yn y cynllun strategol nesaf a bydd yn cael ei gysylltu â'r modd mae'r Llyfrgell yn cyflawni'r saith amcan lles.<br>Ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell yn paratoi Datganiad Llesiant a fydd yn gyson â'r nodau cenedlaethol, a bydd yn defnyddio'r prosiect fel astudiaeth achos | Hyfforddi myfyrwyr BTEC i baratoi archifau sain y gellir eu defnyddio mewn Cartrefi Henoed i wella ansawdd bywyd a lles.<br>Bydd y gwersi sy'n cael eu dysgu o'r prosiect UOSH yn cael eu hintegreiddio i brosiectau yn y dyfodol a'u defnyddio fel astudiaethau achos. |
| Cydweithio | Perthynas oddefol â phartneriaid allanol. | Yn eiriol dros werth cynnwys gyda phartneriaid a chymorth. | Cynnwys cyfeiriad at y prosiect yn neunydd hyrwyddo'r Llyfrgell.<br>Mae Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi rhoi 'mainc sain' i'r Llyfrgell. Bydd hwn yn cael ei arddangos mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru dros y blynyddoedd nesaf a bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r prosiect drwy chwarae detholiad o glipiau sain wedi'u digideiddio drwy'r prosiect. |

| Ffyrdd o weithio | Meysydd i'w gwella | Camau'r Llyfrgell | Manylion |
|---|---|---|---|
| Cynhwysiant | Diffyg amrywiaeth wrth ddethol partneriaid a chasgliadau. | Ymgymryd â gwaith hyrwyddo ac eiriolaeth drwy sianeli cyfathrebu er mwyn denu partneriaid a chasgliadau newydd. | Hyfforddi staff Casgliad y Werin Cymru i uwchlwytho tapiau sain a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r prosiect gyda chynulleidfaoedd newydd.<br>Sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwyr fel y gall staff y prosiect hyfforddi pobl mewn cymunedau partner. Diwedd 2019. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd gennym a byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (CDY). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried fel 'dangosyddion' a fydd yn ein helpu i ffurfio casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o ran i ba raddau mae corff yn gweithredu yn unol â'r SDP wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn? |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maen nhw wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan/ion lles a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maen nhw wedi dylunio'r cam i gyflawni'r manteision tymor byr neu dymor canolig, sydd mewn cydbwysedd â'r effaith dros yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae'r cam wedi'i ddylunio yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o angen a phwysau cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd cyfredol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision tymor byr yn cael eu cyflawni.<br>• Mae ffocws ar gyflawni canlyniadau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd a nodwyd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maen nhw'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai eu helpu i gyflawni manteision dros y tymor hirach.<br>• Maen nhw'n gwerthfawrogi deallusrwydd ac yn mynd ar drywydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwir achosion problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â'r cylchedau negyddol a'r heriau rhyng-genedlaethol.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu cynnig i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau gweithredu ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros yr hirdymor, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar allu i fodloni rhai anghenion yn y tymor byr.<br>• Mae trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn lleihad yn y tymor byr o ran perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth yw eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth mae rhannau gwahanol yn y sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn amlwg hefyd yn ei gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod dibyniaethau traws-sefydliadol cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Mae diwylliant agored lle rhennir gwybodaeth.<br>• Mae dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n dda o sut mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w diwallu yn effeithio ar gyrff sector cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol.<br>• Mae llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, yn ogystal ag ymddygiad. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i gymell gweithgarwch ar y cyd.<br>• Mae gan y cyngor berthnasau cadarnhaol ac aeddfed gyda rhanddeiliaid, lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hyn.<br>• Gweithio'n gyd-gynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynonellau hanfodol o wybodaeth a fydd yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael ei gynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasau aeddfed, llawn ymddiriedaeth gyda'i randdeiliaid lle mae deialog barhaus a lle rhennir gwybodaeth mewn modd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu dysgu a gwella. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru